

Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau  
Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol  
9 Mai 2024 am 10:05, yn 3.4 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

Rhan A

Yn bresennol		
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Yn bresennol:		
Olivia Angilley	(OA)	Hyfforddai Cyllid Gradeddig
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Rheolwr Archwilio, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Clare Jenkins	(CJ)	Is-Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Alun Lloyd	(AL)	Ymgynghorydd Annibynnol
Gareth Lucey	(GL)	Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol, Archwilio Cymru
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Molly Simmonds	MS	Hyfforddai Cyllid Gradeddig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ymddiheuriadau		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd - Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dechreuodd y cyfarfod am 10:05		

<b>ACGC 1/2024.05.09</b>	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b>
<p>Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.</p> <p><b>Nododd</b> y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Gorffennaf 2024.</p> <p>Cofnodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan CB, AW a JW.</p>	
<b>ACGC 2/2024.05.09</b>	<b>Datganiadau o Fuddiant</b>
<p>Datganodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol fuddiant yn eitem agenda 3.1 Adroddiad Tâl 2023-24.</p>	
<b>ACGC 3/2024.05.09</b>	<b>Adroddiad Blynyddol</b>
<b>ACGC 3.1/2024.05.09</b>	<b>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre</b>
<p>Bu'r Pwyllgor yn <b>ystyried</b> y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a'r Adroddiad Tâl Drafft 2023 – 2024.</p> <p>Hysbysodd PV y Pwyllgor fod yr Adroddiad Atebolrwydd drafft yn cynnwys tair adran, sef yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad Tâl a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol (a ddarparwyd ar wahân ym mis Gorffennaf).</p> <p>Amlinellodd yr amserlen ar gyfer yr Adroddiadau, a nodi y byddent yn cael eu cyflwyno ar ffurf drafft i Lywodraeth Cymru ac i Archwilio Cymru i'w hadolygu. Byddai'r archwilwyr yn rhoi barn a fyddai'n cael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r cyfrifon terfynol i gyfarfod y Pwyllgor a'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i'w cymeradwyo.</p> <p>Holodd y Pwyllgor ynghylch parhau i gynnwys darpariaeth Is-grŵp ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 y DU ar Strwythur y Pwyllgor, a dywedwyd wrthynt, wrth i'r Ymchwiliad fynd rhagddo fesul modiwl, y byddai angen yr is-grŵp am yr ychydig flynyddoedd nesaf tan o leiaf 2026. Roedd y Cylch Gorchwyl yn caniatáu i'r is-grŵp COVID-19 wneud penderfyniadau dirprwyedig ar ran y Bwrdd a nodwyd bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu mewn Cyfarfodydd Bwrdd Preifat.</p> <p>Holodd y Pwyllgor a oedd trafodaethau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ag Archwilio Cymru wedi dod i ben gyda Fframwaith boddhaol. Dywedodd AB wrth y Pwyllgor fod trafodaethau ag Archwilio Cymru wedi arwain at drefniant gydag elfennau a oedd yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol ac y byddai Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r defnydd ohono.</p> <p>Tynnodd JM sylw'r Pwyllgor at feysydd yn yr Adroddiad Tâl a Staff oedd yn aros am ffigurau terfynol gan Awdurdod Pensiynau'r GIG.</p> <p><b>Derbyniodd</b> y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a'r Adroddiad Tâl Drafft ac <b>argymhellodd</b> eu bod yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i Archwilio Cymru yn unol â'r gofynion a'r Llawlyfr Cyfrifon.</p>	

**ACGC 3.2/  
2024.05.09**

**Datganiadau Ariannol Blynyddol 2021/22**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Datganiad Ariannol Blynyddol.

Dywedodd HG wrth y Pwyllgor fod y cyfrifon wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i Archwilio Cymru ar 3 Mai 2024, bod yr holl dargedau statudol wedi'u cyflawni yn y flwyddyn ariannol ac nad oedd dim byd anarferol i'w ddwyn i sylw'r Pwyllgor eleni. Gofynnodd HG i aelodau'r Pwyllgor gysylltu ag ef neu unrhyw un o'r Tîm Cyllid os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon am y Cyfrifon Blynyddol rhwng nawr a mis Gorffennaf pan fyddent yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n derfynol.

Cyflwynodd JM drosolwg o'r Cyfrifon Blynyddol i'r Pwyllgor; dechreuwyd ar y gwaith paratoadol ym mis Mawrth, gyda'r gwaith archwilio yn dechrau ar 7 Mai gyda dyddiad cwblhau amcangyfrifedig o 5 Gorffennaf 2024. Nodwyd bod Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Bwrdd wedi'u trefnu ym mis Gorffennaf i argymhell a chymeradwyo'r cyfrifon terfynol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar 31 Gorffennaf 2024.

Cyflawnwyd yr holl dargedau allweddol yn y flwyddyn ariannol ac roedd y Sefydliad wedi nodi gwarged o £51,000. Mae Gweithrediaeth y GIG, corff a letyir, wedi nodi sefyllfa o adennill costau. Cymeradwywyd Cynllun Tymor Canolig Integredig diweddaraf y Sefydliad fis Medi diwethaf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a pharhaodd yn ddilys tan flwyddyn ariannol 2025/26.

Amlygodd JM fod Incwm wedi cynyddu 1% i £3.29m o ganlyniad i:

- Cyllid dyfarniad cyflog ar gyfer Meddygol, Deintyddol ac Uwch Reolwyr (£7.338m).
- Optimeiddio Sgrinio Coluddion (£3.363m).
- Trosglwyddo'r Uned Gyflawni i Weithrediaeth y GIG (£2.448m).
- Arbedion a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru (£4.878m).
- Gostyngiad mewn cyllid COVID-19 (£3.856m).
- Dim stoc rhad ac am ddim wedi ei dderbyn gan arwain at ostyngiad mewn incwm (£1.435m).

Roedd gwariant gweithredu wedi cynyddu £4.457m (2%) oherwydd:

- Cynnydd mewn costau staff (dyfarniadau cyflog, cynnydd mewn staffio o ganlyniad i sefydlu Gweithrediaeth y GIG (£12.219m).
- Cynnydd yn y Gwasanaethau Ymgynghorol (£0.728m).
- Gostyngiad mewn costau COVID nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau (£3.618m)
- Gostyngiad mewn Cyflenwadau a Gwasanaethau yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn Cyllid Hosbis Gwirfoddol o fewn Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru (£3.592m)
- Gostyngiad mewn amhariadau sy'n gysylltiedig â'r ymarfer ailbriso ystadau bob pum mlynedd (£1.224m)

Eitemau eraill a nodwyd gan JM oedd y gostyngiad mewn eiddo, peiriannau ac offer (£2.059m), y gostyngiad yn y stocrestr (£0.997m) a gostyngiad yng ngwerth y darpariaethau cyffredinol oherwydd gostyngiad yng ngwerth achosion o esgeuluster clinigol. (£1.313m).



Arweiniodd ffurfio Gweithrediaeth y GIG ar 1 Ebrill 2024, sy'n cael ei letya gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, at ddyraniad **craidd ychwanegol** o £2.448m gan Lywodraeth Cymru, a throsglwyddo rhwymedigaethau ac asedau cyfredol o'r cyrff blaenorol hynny a oedd wedi uno i ffurfio Gweithrediaeth y GIG.

Roedd y Tîm Cyllid wedi mynd i'r afael â Chanfyddiadau Archwilio o'r flwyddyn 2022-23 i baratoi'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2023-24:

- Paratowyd rhestr wirio a'i hymgorffori yn y broses ar gyfer paratoi'r nodyn symiau taladwy, mewn perthynas â symiau taladwy a chroniadau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG.
- Roedd adolygiadau tâl rheolaidd wedi'u cynnal i nodi gwallau mewn modd amserol.
- Roedd gwelliannau i'r templed cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys fformiwlâu newydd ar gyfer nodiadau a dilysiadau ychwanegol ar gyfer y datganiad llif arian.
- Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch dosbarthiad incwm yn gynnar (ar gyfer Cyrff a Letyir).
- Cafwyd cysondeb ar gyfer gwerthoedd prydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel a adroddwyd yn nodiadau 9 a 13.3.
- Rhoddwyd eglurhad i sicrhau bod y Cyfarwyddwyr a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn aildatgan buddiannau.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y cyfrifoldeb i Gyrff a Lletyir gynhyrchu eu cyfrifon eu hunain. Cadarnhaodd HG fod cyfrifon Cyrff a Letyir yn cael eu hintegreiddio i gyfrifon Iechyd Cyhoeddus Cymru fel llinell incwm ar wahân a bod troednodiadau wedi'u cynnwys lle bo angen er mwyn eglurder.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod strategaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) wedi ystyried y byddai incwm o log ar gael i'w ddefnyddio a bod hynny wedi'i gynnwys fel rhan o'r cynllun buddsoddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd rhai llinellau ar yr adroddiadau segmentiedig wedi symud. Cytunodd HG i adolygu'r mater a godwyd ac ymateb a chynnwys y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn yr ohebiaeth.

**Cam Gweithredu: HG/JM**

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y cynnydd mewn costau ymgynghori. Cadarnhaodd HG fod y costau hyn yn deillio o ddarnau unigol o waith Darganfod a wnaed ar gyfer yr adolygiad Digidol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cyfrifon Drafft a **nododd** eu bod wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ddydd Gwener 3 Mai 2024.

ACGC 4/2024.05.09	Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol
-------------------	---------------------------------------

ACGC 4.1/ 2024.05.09	Traciwr Argymhellion Archwilio
-------------------------	--------------------------------

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y traciwr argymhellion Archwilio ac adroddiad.

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithrediad y camau rheoli sy'n codi o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol. Adolygwyd y



Gofrestr Tracio Archwilio bob chwarter gan y Tîm Arwain a oedd yn gyfrifol am gau camau gweithredu, cymeradwyo estyniadau a sicrhau cynnydd o ran gweithredu. Mae'r Traciwr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn bob chwarter ar gyfer Sicrwydd.

Holodd y Pwyllgor am Gam Gweithredu 447. Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod y Cam Gweithredu yn cyd-fynd â datblygu Hwb Llywodraethu a bod y Cam Gweithredu wedi cael estyniad i gynnwys yr amserlenni y cytunwyd arnynt i weithredu'r Hwb.

Holodd y Pwyllgor ynghylch caniatáu estyniadau gan y Tîm Arwain. Sicrhaodd LB y Pwyllgor y cymeradwywyd estyniadau yn dilyn trafodaethau manwl. Roedd y Tîm Arwain wedi trafod yr angen i sicrhau bod amserlenni realistig yn cael eu cytuno o fewn yr Archwiliadau. Nodwyd llithriad gwaith neu newidiadau i gwmpas hefyd fel ffactor mewn nifer o'r newidiadau mewn dyddiadau.

Cadarnhaodd SS, fel Cadeirydd y Tîm Arwain, fod y Tîm Arwain yn craffu ar bob argymhelliad yn ymwneud â chais Archwilio cyn cytuno ar unrhyw estyniadau. Nododd fod yr allwedd i sicrhau amserlen fwy realistig ar gyfer argymhellion Archwilio ar gam drafftio unrhyw Adroddiad Archwilio Mewnol neu Allanol a nododd y dylid ystyried ymarferoldeb ac effaith argymhellion yn drylwyr cyn i'r camau gweithredu gael eu cymeradwyo ar lefel reoli.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod camau gweithredu Argymhellion Archwilio yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y Tîm Arwain.

ACGC 4.2/  
2024.05.09

Archwilio Mewnol

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

### Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol

Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi mynd rhagddo'n dda ers y cyfarfod diwethaf. Cyflwynwyd tri adroddiad Archwilio Mewnol terfynol i'r Pwyllgor ac maent wedi'u cynnwys ar yr agenda heddiw.

### Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol Grantiau Iechyd y Boblogaeth

Ystyriodd y Pwyllgor yr Archwiliad Mewnol Terfynol i'r Grantiau Iechyd y Boblogaeth (sicrwydd sylweddol).

Dywedodd AC wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad dilynol hwn wedi cael sgôr sylweddol a bod profion wedi cadarnhau bod yr holl bryderon a godwyd yn flaenrol wedi'u gweithredu'n llawn gan y rheolwyr.

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Grantiau Iechyd y Boblogaeth.

### Y Broses Arfarnu ar gyfer Ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd

Ystyriodd y Pwyllgor yr Archwiliad Mewnol Terfynol i Broses Arfarnu Ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd (sicrwydd rhesymol).





Tynnodd AC sylw'r Pwyllgor at yr unig argymhelliad blaenoriaeth uchel a oedd yn ymwneud â gwendidau yn y cynlluniau swyddi.

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Terfynol i'r Broses Arfarnu ar gyfer Ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd.

#### Cynllunio Gwaith Pwyllgor

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Archwiliad Mewnol Terfynol i Gynllunio Gwaith y Pwyllgor (sicrwydd sylweddol). Roedd yr Adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad bach â blaenoriaeth isel.

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Terfynol i Gynllunio Gwaith y Pwyllgor.

#### **Adroddiad Drafft a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol**

Ystyriodd y Pwyllgor ystyriaeth yr Adroddiad Blyneddol Drafft a'r Farn.

Roedd y Farn yn rhoi sicrwydd rhesymol ar y cyfan a oedd yn dangos bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer y meysydd a adolygwyd wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol ar draws y Sefydliad.

Tynnodd y Pwyllgor sylw PD at rai mân wallau, yn enwedig y term Aelodau Annibynnol wedi'i ddefnyddio yn lle Cyfarwyddwyr Anweithredol, ar dudalen 9, trydydd paragraff, roedd yr adroddiadau sicrwydd sylweddol a sicrwydd rhesymol wedi'u hychwanegu at ei gilydd mewn camgymeriad. Cytunodd PD i wneud y cywiriadau hyn cyn cyflwyno ei adroddiad terfynol.

#### **Cam Gweithredu: PD**

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Blyneddol Drafft a'r Adroddiad Barn.

#### **Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2024/25**

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2024/25.

Hysbysodd PD y Pwyllgor am y diwygiadau a wnaed i'r Cynllun Gwaith yn dilyn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth a dywedodd fod y Cynllun Gwaith wedi'i drafod wedyn gan y Tîm Gweithredol Busnes. Pwysleisiodd y byddai'n parhau'n hyblyg drwy'r flwyddyn i ddod a byddai modd newid neu ddiwygio'r Cynllun Gwaith lle bo angen.

**Cymeradwydd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2024/25.

Diolchodd NE i PD ac AC.

**Egwyl**



ACGC 4.3/ 2024.05.09	Archwilio Allanol
<p data-bbox="180 327 852 360">Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Cymru.</p> <p data-bbox="180 398 1453 506">Cyflwynodd GL y Cynllun Archwilio Allanol ar gyfer 2024 gan nodi ei bod yn ddogfen safonol yn crynhoi'r cynlluniau a osodwyd gan Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod ar lefel uchel.</p> <p data-bbox="180 544 1453 725">Adroddwyd ar bump o ganfyddiadau'r archwiliad ariannol ar dudalennau 9, 10 ac 11 o'r Cynllun, a byddai'r meysydd hyn yn darparu ffocws ar gyfer gwaith archwilio ar gyfer y flwyddyn 2024/2025. Roedd amserlen yr Archwiliad Ariannol, a ddangosir ar dudalen 12, ar y trywydd iawn gyda Steven Wyndham (Rheolwr Archwilio) a Kathryn Watts (Arweinydd Archwilio).</p> <p data-bbox="180 763 1453 909">Cyflwynodd AB adran Archwilio Perfformiad y Cynllun a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi gwall ar dudalen 13, roedd y dyddiadau ar gyfer yr Aseiad Strwythuredig yn ddyddiadau 2024, a dylai nodi: Gwaith maes i ddechrau rhwng mis Mehefin ac Awst 2024 ac adroddiad i'w gyflwyno erbyn diwedd mis Hydref 2024.</p> <p data-bbox="180 947 1453 1128">Wrth dynnu sylw at yr Archwiliad Dwfn Digidol, nododd fod hyn wedi ei gynnwys yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ond ei fod wedi'i ohirio tan eleni ac y byddai'r gwaith maes yn dechrau cyn gynted â phosibl. Roedd gwaith y Prosiect Lleol yn cael ei gwblhau a byddai'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor yn y Diweddariad nesaf gan Archwilio Cymru.</p> <p data-bbox="180 1128 496 1167"><b>Cam Gweithredu: AB</b></p> <p data-bbox="180 1205 1453 1312">Daeth GL â'r cyflwyniad i ben gan dynnu sylw'r Pwyllgor at y tabl ffioedd a ddangoswyd ar dudalen 15 a nododd mai amcangyfrif oedd hwn ac y gallai'r ffi derfynol adlewyrchu arbedion a ddarganfuwyd dan safonau ISO315.</p> <p data-bbox="180 1350 831 1388"><b>Nododd</b> y Pwyllgor Gynllun Archwilio Cymru.</p> <p data-bbox="180 1426 1078 1464">Bu'r Pwyllgor yn ystyried Diweddariad Archwilio Cymru (Mai).</p> <p data-bbox="180 1503 1453 1648">Cyflwynodd AB Ddiweddariad Archwilio Cymru a nododd fod y cynnwys wedi cael sylw mewn trafodaethau ar y Cynllun Archwilio. Tynnodd AB sylw'r Pwyllgor at salwch staff a oedd wedi arwain at oedi gyda pheth gwaith ac roedd AB yn gweithio i ddarparu dyddiadau newydd i'r Pwyllgor eu hystyried.</p> <p data-bbox="180 1686 1453 1753">Gofynnodd y Pwyllgor i AB gynnwys Sumina Azam yn y gwaith ar yr Amcanion Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Cytunodd AB.</p> <p data-bbox="180 1753 544 1792"><b>Cam Gweithredu: BIPAB</b></p> <p data-bbox="180 1830 991 1868"><b>Nododd</b> y Pwyllgor y Diweddariad gan Archwilio Cymru.</p> <p data-bbox="180 1906 1437 1944">Diolchodd NE i GL ac AB am Gynllun Archwilio Cymru a'r Diweddariad Archwilio Cymru.</p>	



<b>ACGC 5/2024.05.09</b>	<b>Llywodraethu ac Atebolrwydd</b>
<b>ACGC 5.1/ 2024.05.09</b>	<b>Cofnodion Cyfarfod 19 Mawrth 2024, Log Gweithredu a Materion yn Codi</b>
<p><b>Ystyriodd</b> y Pwyllgor Gofnodion a Log Gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024.</p> <p>Wele isod yr hyn a wnaeth y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Cymeradwyo</b> cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</li><li>• <b>Cymeradwywyd</b> cau tri cham a gwblhawyd ar y Log Gweithredu.</li></ul>	
<b>ACGC 5.2/ 2024.05.09</b>	<b>Diweddariad ar Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth</b>
<p><b>Ystyriodd</b> y Pwyllgor yr Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion.</p> <p>Cyflwynodd SS yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan roi'r wybodaeth ddweddaraf am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Llywodraethu Integredig</li><li>• Rheoli Cofnodion.</li></ul> <p>Mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI), tynnodd SS sylw at y gwelliant bychan mewn amseroedd ymateb, ond nododd bod angen gwelliant pellach o hyd. Adroddwyd am sefyllfa debyg gyda Cheisiadau Mynediad Sengl ac Ymchwiliadau Tor Diogelwch Data. Dywedodd SS wrth y Pwyllgor y byddai'n defnyddio'r Tîm Arwain i uwchgyfeirio a hysbysu Cyfarwyddiaethau ac Is-adrannau ynghylch y blaenoriaethau sydd eu hangen i ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Byddai trefn debyg yn cael ei defnyddio gyda'r rhwydwaith o Berchnogion Asedau Gwybodaeth.</p> <p>O ran achosion o dor diogelwch data, nododd SS fod un toriad data wedi'i adrodd yn fanylach yn y Sesiwn Breifat, a bod chwe achos arall wedi bod yn ystod y chwarter adrodd. O ran Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth Statudol a Gorfodol, dywedodd SS fod sesiwn hyfforddi wedi'i threfnu ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol i gefnogi cwblhau'r modiwl hwn a gwella'r ffigurau cydymffurfio ar gyfer y Bwrdd a Llywodraethu Corfforaethol.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor a oedd enghreifftiau o dor diogelwch data a oedd wedi digwydd yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddi staff. Cadarnhaodd SS fod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio, ar ffurf wedi'i golygu, i sicrhau bod staff yn dysgu sut roedd achosion yn digwydd a sut y gellid osgoi ailadrodd. Roedd naw achos o bob deg yn deillio o atodi gwybodaeth bersonol i e-byst, ac atgoffodd y Pwyllgor fod defnyddio SharePoint yn ddull llawer mwy diogel o anfon ffeiliau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol.</p> <p>Dywedodd SS wrth y Pwyllgor y byddai'n cyflwyno adroddiad manwl ynghylch Rheoli Cofnodion.</p> <p>Cafodd y Pwyllgor <b>sicrwydd</b> o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth a bod Rhaglen Weithredu SharePoint ar gyfer Rheoli Cofnodion ar y trywydd iawn gyda'r cynllun gweithredu.</p>	





<b>ACGC 5.3/ 2024.05.09</b>	<b>Polisiâu i'w Cymeradwyo</b>
<p>Derbyniodd y Pwyllgor bolisiâu i'w cymeradwyo:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Defnydd derbyniol o e-bost (i ddisodli'r Polisi Cymru Gyfan presennol)</li><li>• Defnydd Derbyniol o'r Rhynggrwyd (i ddisodli'r Polisi Cymru Gyfan presennol)</li><li>• Rheoli Cofnodion (Polisi newydd)</li></ul> <p>Rhoddodd SS wybod i'r Pwyllgor am y broses yr oedd polisiâu unigol yn ei dilyn cyn dod i'r Pwyllgor hwn i'w cymeradwyo. Adolygwyd y polisiâu Llywodraethu Gwybodaeth gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth yng nghyd-destun polisiâu Cenedlaethol Cymru Gyfan. Ategwyd y polisiâu unigol gan eu gweithdrefnau priodol i helpu staff i gydymffurfio â'r polisiâu.</p> <p>Ymgynghorodd yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a'r Tîm Gwybodeg gyda Pherchnogion Asedau Gwybodaeth a pharatoi drafft ymgynghorol o bolisi, gweithdrefn ac asesiadau cysylltiedig. Yna cawsant eu huwchlwytho i'r Gronfa Ddata Ymgynghoriadau i alluogi pawb yn y Sefydliad i adolygu a rhoi sylwadau arnynt cyn mynd â'r drafftiau i'r Tîm Arwain i'w cadarnhau'n derfynol ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol i'w cymeradwyo'n derfynol.</p> <p>Diolchodd y Pwyllgor i SS am ei esboniad manwl a chymerodd yr aelodau sicrwydd bod proses gadarn a phriodol wedi'i dilyn yn unol â pholisi.</p> <p>Nododd y Pwyllgor nad e-byst oedd yr unig ffurf ar lwyfan negeseuon a ddefnyddir gan staff a gofynnodd a oedd gan y Sefydliad bolisi, neu'r bwriad i roi polisi ar waith, ar gyfer defnyddio llwyfannau negeseuon eraill. Cadarnhaodd SS fwriad y Sefydliad i weithredu polisi o'r fath a bod trafodaethau wedi cadarnhau'r angen i baratoi un polisi a oedd yn crynhoi sut roedd y Sefydliad yn rheoli symudiad gwybodaeth bersonol, ac awgrymwyd datblygu polisi cyfathrebu electronig.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y dogfennau ategol ar gyfer y Polisi Rheoli Cofnodion. Eglurodd SS fod y Polisi yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Diogelu Data a Chod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor ar Reoli Cofnodion, a bod y weithdrefn yn cynnwys yr wybodaeth a oedd yn nodi sut yr oedd y Sefydliad yn cyflawni'r gofynion.</p> <p><b>Cymeradwyodd y Pwyllgor:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Polisi Defnydd Derbyniol o E-bost newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru</li><li>• Polisi Defnydd Derbyniol o'r Rhynggrwyd newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru</li><li>• Polisi Rheoli Cofnodion</li></ul> <p><b>Cymeradwyodd y Pwyllgor dynnu'r canlynol yn ôl:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Polisi Defnydd o E-bost Cymru Gyfan</li><li>• Polisi Defnydd Derbyniol o'r Rhynggrwyd Cymru Gyfan</li></ul>	
<b>ACGC 6/2024.05.09</b>	<b>Ar gyfer Argymhelliad i'r Bwrdd</b>
<b>ACGC 6.1/2024.05.09</b>	<b>Rheolau Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo</b>
Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Clawr y Rheolau Sefydlog, y Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo.	



Mae'n ofynnol i'r Sefydliad adolygu ei Reolau Sefydlog bob blwyddyn. Cyhoeddwyd Rheolau Sefydlog Enghreifftiol 2024 gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn adlewyrchu sefydlu'r Cydbwyllgor Comisiynu. Cawsant eu hadolygu a darparwyd crynodeb o'r newidiadau arfaethedig yn yr Adroddiad Eglurhaol.

Nododd y Pwyllgor y gofyniad yn y Rheolau Sefydlog i'r Sefydliad gael Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Dywedodd JM wrth y Pwyllgor fod gan y Sefydliad Gronfeydd Elusennol, eu bod yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac nid oedd y cronfeydd wedi'u cynnwys yng nghyfriflyfr y Sefydliad gan eu bod yn cael eu rheoli ar ein rhan.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld y cronfeydd hyn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol o leiaf unwaith y flwyddyn. Cytunodd HG i ddod â'r adroddiad i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn, a nododd efallai na fyddai Diwedd Blwyddyn Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cyd-fynd â hynny.

Nodwyd y credid bod balans presennol y gronfa o dan £100,000, ac y byddai atodlen a rhestr o drafodion yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

**Cam Gweithredu: HG**

**Ystyriodd** y pwyllgor y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a Chadw a Dirprwyo Pwerau ac argymhellodd y newidiadau arfaethedig i'r Bwrdd eu mabwysiadu.

#### **ACGC 6.2/2024.05.09 | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

Rhoddodd PV ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ynghylch Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Cymeradwywyd y Fframwaith gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2023 gydag ymrwymiad i'w adolygu'n flynyddol a oedd wedi'i gwblhau ym mis Mai i gyd-fynd â'r adolygiad o ddogfennau llywodraethu allweddol eraill. Nodwyd bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu trafod gyda'r Tîm Gweithredol ar 15 Mai, a chynigwyd ychwanegu fân elfennau at y map sicrwydd a oedd wedi'u nodi fel rhan o'r adolygiad o gynlluniau Gwaith y Pwyllgor.

**Ystyriodd a nododd** y Pwyllgor y diweddariad llafar ynghylch Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

#### **ACGC 6.3/2024.05.09 | Adroddiadau Pwyllgorau'r Bwrdd**

Cyflwynodd LB Adroddiadau blynyddol y Pwyllgor ac eglurodd y broses gymeradwyo yn dilyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn.

#### **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor**

Roedd yr adroddiad yn crynhoi gwaith y Pwyllgor yn y flwyddyn 2023/2024, gan roi sicrwydd i'r Bwrdd a chyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys adran Archwilio a dynnwyd o Adroddiad cyfunol y Pwyllgorau i'r Bwrdd.

#### **Cynllun Gwaith y Pwyllgor**



Mae'r Cynllun Gwaith yn crynhoi'r cynllun gwaith archwilio ar gyfer y 12 mis nesaf, elfennau o waith Traws-Bwyllgor a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi eu hymgorffori i'r Cynllun Gwaith.

### Cylch Gorchwyl

Roedd y Cylch Gorchwyl yn cynnwys mân newidiadau i sicrhau cysondeb ar draws y Pwyllgorau ac roedd Newidiadau wedi'u Tracio wedi'u cynnwys er gwybodaeth.

### Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgorau

Nodwyd bod yr argymhellion a dynnwyd o Weithdy'r Bwrdd wedi'u coladu, y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Gweithgor Cadeiryddion ac y byddai'r Pwyllgor yn cael ei ddiweddarau pan fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud.

Diolchodd y Pwyllgor i LB am yr adroddiadau a chanfuwyd bod yr Adroddiad Blynyddol ar ei newydd wedd yn fwy cryno ac yn haws i'w ddilyn.

Holodd y Pwyllgor am y crynodeb o Archwiliadau Mewnol, a oedd yn wahanol i'r hyn a geir yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol. Eglurodd LB fod yr adroddiad yn crynhoi'r rhai a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, tra bod yr adroddiad Archwilio yn crynhoi'r rhai a dderbyniwyd fel rhan o gynllun 2023/24. Cyflwynwyd rhai o'r Archwiliadau o Gynllun Archwilio'r llynedd ym mis Mai 2023, ac felly fe'u cynhwyswyd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

### Cymeradwydd y Pwyllgor y canlynol:

- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor a chytunwyd i **argymell** y canlynol i'r Bwrdd:
- Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2024/2025 a chytunwyd i'w gyflwyno i'r Bwrdd am **sicrwydd**.
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a chytunwyd i **argymell** i'r Bwrdd ei **gymeradwyo**
- Arolwg Effeithiolrwydd y Pwyllgor a'r canlyniadau a chytunwyd i'w cyflwyno i'r Bwrdd am **sicrwydd**.

ACGC 6.4/2024.05.09

Dogfennau Darpariaeth Gwasanaeth ac Amserlen Sicrwydd  
Gweithrediaeth y GIG

Rhoddodd PV ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ynghylch Dogfennau Darpariaeth ac Amserlen Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG.

Dywedodd PV wrth y Pwyllgor fod atodiad i Gytundeb Lletya Gweithrediaeth y GIG wedi'i gymeradwyo ym mis Mawrth 2024, a'i fod yn cynnwys ymrwymiad rhwng Gweithrediaeth y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu a chytuno ar y cyd ar ddogfennau darparu gwasanaeth cyn diwedd mis Mai 2024. Diben hyn oedd egluro'r gwasanaethau lletya a ddarperir gan Gyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â'r Trefniadau Lletya.

Yn ogystal, roedd yr amserlen yn ei gwneud yn ofynnol i Weithrediaeth y GIG roi sicrwydd yn erbyn pob maes llywodraethu i'r Pwyllgorau a Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn cyd-fynd â'r fframwaith sicrwydd a ddefnyddir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.



<p>Nodwyd bod y trafodaethau i gwblhau'r ddogfennaeth hon yn mynd rhagddynt yn dda, a'r bwriad oedd y byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 30 Mai 2024.</p> <p>Ystyriodd a nododd y Pwyllgor y diweddariad llafar.</p>	
<b>ACGC 7/2024.05.09</b>	<b>Er Gwybodaeth</b>
<b>ACGC 7.1/2024.05.09</b>	<b>Cyllid, Caffael ac Atal Twyll</b>
Dim	
<b>ACGC 7.2/2024.05.09</b>	<b>Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol</b>
Dim	
<b>ACGC 7.3/2024.05.09</b>	<b>Rheoli Risg</b>
<p><b>Nododd</b> y Pwyllgor y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol llawn.</p> <p>Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch dwy ffrâm amser a ddyfynnwyd yn AP 2.2 ac AP 3.3. Cytunodd SS i adolygu.</p> <p><b>Cam Gweithredu: SS</b></p> <p>Nododd y Pwyllgor anghysondeb o ran fformatio diweddariadau adrodd, roedd rhai yn gronolegol wrth ddarllen i lawr, ac roedd rhai wedi'u fformatio mewn trefn gronolegol o chwith wrth ddarllen i fyny. Cytunodd SS i fynd i'r afael â hyn.</p> <p><b>Cam Gweithredu: SS</b></p>	
<b>ACGC 7.4/2024.05.09</b>	<b>Llywodraethu ac Atebolrwydd</b>
Dim	
<b>ACGC 7.5/2024.05.09</b>	<b>Cynllun Gwaith y Pwyllgor</b>
<p><b>Nododd</b> y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod (Eitem 6.3).</p>	
<b>ACGC 8/2024.05.09</b>	<b>Gweinyddiaeth i Gloi</b>
<p><b>Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:</b> 10 Gorffennaf 2024</p> <p>Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth am y cyfarfod at LB.</p> <p><b>Urrhyw Fater Arall</b></p> <p>Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 11:55</p>	